



A Twinkl Original
Diwrnod Cyntaf Jac
twinkl





Argraffiad Cyntaf - 2019 gan Twinkl Cyf.
197, Heol Eccleshall, Sheffield S11 8HW

Hawlfraint © Twinkl Cyf. 2019

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng electronig neu fecanyddol, gan gynnwys ffotogopïo, recordio neu system arall, heb ganiatad ysgrifenedig ymlaen llaw wrth Twinkl Cyf.

Ffuglen yw'r gwaith hwn. Mae'r cyfeiriadau at enwau, cymeriadau, busnesau, lleoliadau a digwyddiadau naill yn gynnyrch dychmygol yr awdur neu'n cael eu defnyddio mewn modd ffuglennol. Mae unrhyw debygrwydd i bersonau neu ddigwyddiadau gwirioneddol yn gyd-ddigwyddiad llwyr.

Mae Apple a Logo Apple yn nodau masnach Apple Inc. sydd wedi ei gofrestru yn yr U.D. a gwledydd eraill. Mae App Store yn nod gwasanaeth Apple Inc, sydd wedi ei gofrestru yn yr U.D. a gwledydd eraill.

Mae Google Play a logo Google Play yn nodau masnach Google LLC.

Mae Twinkl yn nod masnach cofrestredig Twinkl Cyf.

A Twinkl Original

# Diwrnod Cyntaf Jac



Twinkl Educational Publishing

Roedd Jac yn ei byjamas yn chwarae gyda'i hoff deganau.

"Tyrd, Jac," meddai Mam. "Heddiw yw dy ddiwrnod cyntaf yn yr ysgol. Mae angen i ni baratoi."



“Dydw i ddim eisiau mynd mam,” meddai Jac.
“Dwi’n credu bod hi’n well i mi aros adre i chwarae heddiw.”

Chwarddodd Hana, ei chwaer.
“Chei di ddim aros adre Jac.
Mae’n rhaid i ti fynd i’r ysgol!”



Cerddodd Hana, Jac a Dad i'r ysgol.

"Ond gyda phwy alla i chwarae?" gofynnodd Jac. "Pwy sy'n mynd i'm helpu i? Beth os oes rhaid i mi wneud gwaith anodd iawn? A fydd rhaid i mi fynd ar yr iard chwarae mawr? Beth am yr holl blant mawr yn y neuadd ginio? Beth am–"



“Coelia fi,” meddai Hana. “Rwyt ti’n mynd i gael diwrnod cyntaf bendigedig.”

Cofleidiodd Hana ei brawd ac aeth hi i’w dosbarth newydd, yn gyffrous i fod nôl yn yr ysgol.



Aeth Dad â Jac i'w ddosbarth newydd. Roedd Jac yn sicr iawn o'r ffaith y byddai'n well ganddo fod adre yn ei byjamas.

"Dyma ni," meddai Dad. "Dwed helo wrth dy athrawes newydd."

Gwgodd Jac.



Gwenodd Miss Elis ar Jac. “Mae’n rhaid mai Jac wyt ti, ein llongwr newydd.”

“Beth newydd?” gofynodd Jac.

“Mae angen môr-leidr arall fel ti ar fwrdd y llong,” dywedodd hi. “Croeso. Capten Elis ydw i.”



Daeth y môr-ladron at ei gilydd i wrando ar y capten.


“Rydym wedi derbyn neges mewn potel,” meddai Capten Elis. “Mae angen i chi fy helpu i ddarllen a datrys y neges.”



Gweithiodd Capten Elis a'r môr-ladron fel tîm i ddarllen y neges gyda'i gilydd.



Tynnodd Capten Elis y map allan o'r botel a'i ddangos i'r môr-ladron.




"Dwi'n credu bydd yn rhaid i ni fynd draw fan yna yn gyntaf," awgrymodd Jaya.

Gyda'i gilydd, dilynodd y môr-ladron y llwybr, dros y mynyddoedd, trwy'r sugndraeth a rhwng y coed palmwydd.










O’r diwedd, daethant o hyd i’r man a gafodd ei farcio ar y map. Aethant ati i gloddio, a chloddio nes dod o hyd i gist drysor.




“Gwaith da, fôr-ladron,” meddai Capten Elis. “Dewch â’r trysor yn ôl i’r llong ac fe gawn egwyl fach. Dwi’n credu eich bod yn haeddu pysgod a sglodion i ginio!”



Aethant lawr i’r dec isaf, lle roedd nifer fawr o fôr-ladron llwglyd wedi dod at ei gilydd. Wedi aros ei dro, cafodd Jac hambwrdd o fwyd blasus.

Wrth iddo edrych o gwmpas yn pendroni lle i eistedd, daeth wyneb yn wyneb â dieithryn enfawr.



“Dyma gyllell a fforc i ti,” meddai’r môr-leidr enfawr. “Gwna’n siwr dy fod yn cael diod o ddŵr hefyd.”

“Ew! Diolch!” meddai Jac.



"Eistedda fan hyn!" galwodd Dyfed.

Gwenodd Jac gan ymuno ag ef.

"Mae'r bwyd yma yn flasus ofnadwy!" meddai Dyfed. "Dwi'n caru pysgod. A dwi'n caru sglodion. Pysgod a sglodion yw fy hoff fwyd i. Wyt ti'n hoffi pysgod? Oes well gen ti sglodion? Dwi'n credu..."



Roedd Jac yn cnoi ei fwyd gan wenu a nodio ei ben wrth i'w ffrind newydd sgwrsio gydag e.

Wrth iddynt orffen y bwyd, ymddangosodd Heti. "Tybed allwch chi groesi'r môr heb gael eich bwyta gan y crocodeiliaid?" gofynodd.

"Gallwn, wrth gwrs!" gwaeddodd Jac a Dyfed.



Daeth pawb lawr o’r llong ac allan i’r awyr agored.

“Bydd yn rhaid i chi groesi’r dŵr heb i’r crocodeiliaid eich dal,” meddai Heti.

Rasiodd y môr-ladron ar draws y môr gan geisio osgoi’r crocodeiliaid. “Ar eich marciau, ewch!”



Yn sydyn, ymddangosodd Capten Elis, yn canu cloch yn uchel iawn. “Fôr-ladron! Pawb yn ôl ar fwrdd y llong, os gwelwch yn dda. Mae’n rhaid i ni edrych i weld faint o drysor sydd gennym!”




Bu pob môr-leidr yn brysur yn helpu cyfri'r darnau aur, y modrwyon, y diemwntau a'r mwclis. Aeth pawb ati i gyfri am yr ail waith er mwyn gwirio.

"1, 2, 3..." cyfrodd Jac, gan wneud yn siwr ei fod yn gywir.



“10 darn aur, 5 modrwy, 8 diemwnt a 7 mwclis,” meddai Capten Elis.



“Cyfri arbennig bawb. Nawr te, dewch i ni gael popeth yn ei le.”

Aeth pawb ati i dacluso, ysgubo, sgrwbio a glanhau.



Ar ôl i bawb orffen eu tasgau, dywedodd Capten Elis wrth y môr-lardon am gasglu eu pethau a pharatoi ar gyfer cyrraedd y tir.



"Wel am ddiwrnod cyntaf bendigedig!" meddai Miss Elis. Rydym wedi darllen yn dda, dilyn map, wedi bod yn y neuadd ginio ac ar yr iard chwarae mawr am y tro cyntaf. Hefyd, rydym ni wedi llwyddo i gyfri trysor!"





Cyn i Jac sylweddoli, roedd hi'n amser mynd adref. Roedd Mam a Hana yn aros wrth y drws.




“Sut oedd dy ddiwrnod cyntaf di?” gofynnodd Mam.

“Wel am antur!” meddai Jac. “Dydw i methu aros am yr ail ddiwrnod.”







Daliwch ati i ddysgu gyda'r adnoddau unigryw hyn, wedi eu creu gan athrawon i ysbrydoli a chynnal brwdfrydedd plant yn yr ysgol, gartref a thu hwnt...

Ewch i **twinkl.com/originals**





















**Mae diwrnod cyntaf Jac yn yr ysgol wedi cyrraedd ac mae'n teimlo'n nerfus.**

"Dydw i ddim eisiau mynd Mam," meddai Jac. Well i mi aros adre i chwarae heddiw."

Tybed a fydd diwrnod cyffrous mewn dosbarth newydd yn newid ei feddwl? Ymunwch â Jac a'i ffrindiau wrth iddo ddarganfod bod dechrau ysgol yn gallu bod yn dipyn o antur.



twinkl
ewch i twinkl.cymru

Rydym yn helpu'r rhai sy'n addysgu.

Mae cymunedau addysgu byd-eang yn ymddiried ynom. Mae Twinkl yn cynnig mynediad uniongyrchol at ystod gyflawn o ddeunyddiau addysgu, cynllunio ac asesu diddorol ac ysbrydoledig wedi eu creu gan athrawon i gefnogi dysgu o'r cychwyn cyntaf.

twinkl Quality Standard Approved